# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Gloria Tanner | **Ward Etholiadol:** | Mynydd-bach |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dd/b |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Y llynedd, gweithiais gyda fy nghydweithwyr ward i sicrhau bod yr holl etholwyr sy'n byw ym Mynydd-bach wedi elwa o'm hymdrechion gorau i wella'u bywydau a'r ardal y maent yn byw ynddi. Rwyf wedi ymdrin â llawer o bryderon a oedd gan etholwyr, drwy weithio gyda swyddogion y cyngor mewn modd proffesiynol. Mae ward Mynydd-bach yn ardal amrywiol gyda phryderon a barn wahanol. Fy nod erioed yw bod yn onest ac yn dryloyw gyda fy etholwyr.

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd er mwyn cyfathrebu ag etholwyr ac rwyf wedi darparu ymweliadau cartref ar gais. Rwyf wedi gweithio'n galed gyda phobl y gymuned i fagu perthynas ymddiriedus â hwy. Er bod nifer y cymorthfeydd wedi cael ei leihau, byddant yn cael eu hadolygu ar bob adeg. Os bydd angen cynyddu nifer y cymorthfeydd cynghorwyr, rhoddir ystyriaeth ddifrifol i hyn. Mae gennyf berthynas waith dda gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol; roeddwn i'n bresennol yn ddiweddar mewn cyfarfod PACT ar y cyd ac rwy'n bwriadu cynnal cyfarfodydd pellach yn y dyfodol.

Rwy'n llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Clâs ac rwy'n mynd i'r cyfarfodydd pan fyddaf yn gallu. Mae'n anrhydedd gennyf fod yn gysylltiedig ag ysgol gystal, sy'n addysgu gwerthoedd cynhwysol sylfaenol i blant.
Rwy'n gwasanaethu ar sawl Pwyllgor Cyngor ond rwyf wedi cael problemau bod yn bresennol eleni oherwydd salwch yn y teulu. Fy nod yw gwella fy mhresenoldeb yn y dyfodol. Rwyf bob amser ar gael i gynorthwyo etholwyr ac rwy'n gweithio'n aml gyda'r hwyr ac yn ystod penwythnosau.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb cynghorwyr yma.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Gallwch weld cyfrifoldebau cynghorwyr yma.
Gallwch weld apwyntiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Aelod o Awdurdod Tân Canolbarth Cymru.
Ymddiriedolwr "Sure sprung"

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cefnogi Canolfan Gymunedol y Clâs a mynd i gyfarfodydd a gynhelir yn rheolaidd.
Bod yn llywodraethwr ysgol a mynd i gyfarfodydd.
Cefnogi'r banc bwyd lleol. Cefnogi sefydliadau elusennol lleol eraill yn y ward.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi rhoi arian o'm grant cymunedol i'r canlynol:
Ysgol Pen-y-Bryn.
Banc bwyd Cwtsh.
Pride Abertawe.
Defnyddwyr grŵp lleol yng Nghanolfan Gymunedol y Clâs.
Rwyf wedi ariannu cynlluniau traffig ar y cyd i gynorthwyo etholwyr gyda phroblemau parcio ac arwyddion stryd.
Rwyf wedi ariannu biniau gwastraff a blychau baw cŵn mewn rhannau o'r ward.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Basic Salary: £13,400

Gallwch weld ffurflenni hawlio costau teithio a threuliau cynghorwyr yma.
Gallwch weld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25/10/2018 |